

## SWYDDOG GWEITHREDOL SGILIAU A HYFFORDDIANT

- Lleoliad: **Caerdydd gydag ychydig o deithio o gwmpas Cymru**
- Telerau: **17.5 awr yr wythnos (0.5 Cyfwerth Llawn Amser), yn ddelfrydol am 4 – 5 diwrnod**
- Tymor Penodol: **Un flwyddyn, gyda'r posibilrwydd o estyniad**
- Cyflog: **Cyfwerth Llawn Amser £22,000 - £25,000 (£11,000 - £12,500 pro rata), yn dibynnu ar brofiad**

Er bod y swydd yn cael ei chynnig fel un rhan amser, gallai'r swydd datblygu'n un llawn amser.

### GWYBODAETH GEFNDIR

Mae Ffilm Cymru wedi'i ymrwymo i gefnogi'r sector ffilm yng Nghymru a'i gwneud yn haws i bobl weld ffilmiau a'r budd a ddaw i bobl Cymru o hynny. Rydyn ni'n gweithio ar draws cadwyn gyflenwi'r sector, yn cefnogi datblygu ffilmiau, yn cynhyrchu a dangos ffilmiau, yn addysgu am ffilmiau a'r cyfryngau ac yn cynnig cyngor, arian, gwella sgiliau ac eiriolaeth.

Fel rhan o ffordd gyffredinol ein cwmni o weithio, rydyn ni'n annog gwneuthurwyr ffilmiau i brofi a threialu eu syniadau, i gydweithio gyda diwydiannau creadigol eraill a chysylltu â'u cynulleidfaoedd o gyfnodau cynharaf datblygiad eu prosiect. Ac, yn ganolog i'n holl waith y mae ein hymrwymiad at gynhwysedd: rydyn ni'n hyrwyddo ac yn cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysedd yn ein holl weithgareddau ac yn gweithio'n frwdfrydig i gyrraedd targedau sy'n adlewyrchu'n cenedl ddwyieithog.

I gael rhagor o wybodaeth ar Ffilm Cymru, ewch ar [ein gwefan](#) ac edrych ar ein [Hadroddiadau Blynnyddol](#).

### PRIF DDIBEN Y SWYDD

Galluogi darparu hyfforddiant, digwyddiadau ac adnoddau penodol i'r sector sy'n helpu i adeiladu sector greadigol fwy cynhwysol a gwydn yng Nghymru.

Gan weithio gyda'n Pennaeth Cynhyrchu (rheolwr llinell) a chydweithio'n agos gyda'n Swyddog Gweithredol Rhaglen Troed yn y Drws, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn darparu cefnogaeth logistaidd a gweinyddol i'r rhaglenni sgiliau a hyfforddiant ar draws gwaith Ffilm Cymru Wales, gan gynnwys y rhaglen hyfforddi'r sector creadigol arobryn, Troed yn y Drws; hyfforddiant a digwyddiadau'n gysylltiedig â'n cynnig RHWYDWAITH BFI a datblygu a darparu adnoddau a

digwyddiadau gyrfaedd ar gyfer Llywodraeth Cymru yn cael eu cefnogi gan Raglen Gyrfaedd Creadigol.

Mae'r partneriaid ar gyfer ein gweithgareddau sgiliau a hyfforddiant yn niferus ac yn amrywiol gan gynnwys: cyrff addysg a'r celfyddydau cenedlaethol a lleol, ysgolion, sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch, Sgiliau Creadigol a Diwylliannol, Sgiliau Sgrîn, y BFI, Into Film, BAFTA Cymru, Cymdeithasau Tai, canolfannau gwaith, Gyrfa Cymru, darlledwyr a llu o weithwyr llawrydd, ffilm, teledu a chwmnïau'n gysylltiedig â'r celfyddydau perfformio, Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru.

## CYFRIFOLDEBAU

Mae hon yn swydd brysur ac eithriadol o foddhaol, yn gweithio gyda thîm ffantastig sy'n angerddol dros ddatblygu mynediad teg ar gyfer talent yn y diwydiannau creadigol ar bob lefel yng Nghymru. Mae'n gofyn am gryn dipyn o hyblygrwydd a gweithio gyda, ac ar ran, llawer o randdeiliaid.

Byddwch yn gyfrifol am:

- Gyd-lynu'r gwaith o ddydd i ddydd ar gyfer ein digwyddiadau sgiliau a hyfforddi - yn gweithio gyda nifer o bartneriaid - yn ateb yr ymholiadau cyntaf a'r gwaith yn dilyn o hynny i alluogi darparu (megis archebu lleoliadau a threfnu siaradwyr, arlwy, cyfieithu, deunyddiau cefnogi, cludiant, gofal plant, cynnal asesiadau risg ayb);
- Cydlynu rhwng partneriaid prosiect Ffilm Cymru Wales i gael, rhannu, a chytuno, gwybodaeth bellach a logisteg;
- Casglu a datblygu bas data o wybodaeth am randdeiliaid a chyfranogwyr a thracio manylion a fydd yn ein helpu i asesu a chyfathrebu effeithiau ein gwaith (er enghraifft, a yw hyder y rhai sy'n cymryd rhan yn cynyddu neu a ydyn nhw'n dod yn fwy ymwybodol o gyfleoedd gyrfa, cael gwaith, sefydlu busnes neu symud ymlaen at addysg bellach / uwch ar ôl hyfforddiant) a chadw trosolwg o statws y gwahanol brosiectau a'u cyfranogwyr;
- Darparu cefnogaeth weinyddol ar draws ein gweithgareddau a'n digwyddiadau hyfforddi;
- Didoli deunyddiau monitro a gwerthuso, gan gynnwys data cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysedd a helpu i adrodd yn ôl ar brosiectau – gan gynnwys rhannu syniadau ynghylch sut y gwelid gwella ein cynnig yn barhaus.;
- Dyfeisio a datblygu ein casgliad o astudiaethau achos, adnoddau a deunyddiau hyrwyddo (ar y cyd â'n Rheolwr Cyfathrebiadau) ar gyfer ein gweithgareddau sgiliau a hyfforddi i allu cyfathrebu cyfleoedd gyrfaedd creadigol yn well i gynulleidfaedd sy'n cael eu targedu (e.e.

canolfannau gwaith / ymgynghorwyr gyrfaedd, rhieni, pobl ifanc, rhai sy'n newydd i'r sector, pobl broffesiynol sydd eisiau datblygu'u gyrfa);

- Cefnogi'r broses o recriwtio cyfranogwyr gan gydlynu gyda sawl partner;
- Darganfod banc o siaradwyr, mentoriaid a hyfforddwyr ymhellach a chydlynu gyda chwmnïau Teledu, Ffilm, y celfyddydau perfformio a chwmnïau adnoddau i'w datblygu ymhellach;
- Cefnogi'ch rheolwr llinell a rheolwr/wyr rhaglenni trwy reoli a monitro'r gwariant ar brosiectau, defnyddio systemau mewnol i brosesu taliadau;
- Cydlynu a thracio bwrsariau cyfranogwyr;
- Gweithredu fel eiriolwr dros Ffilm Cymru Wales a'i waith ynghylch sgiliau a hyfforddi;
- Ysgrifennu adroddiadau, gwerthusiadau a diweddariadau ar gyfer arweinwyr a rheolwyr prosiectau yn ôl y gofyn;
- Gweithio i gefnogi cyfranogwyr ar set ac mewn hyfforddiant a digwyddiadau yn ôl y gofyn.

## MANYLION YR YMGEISYDD

Yn angerddol ynghylch agor a chefnogi cynnydd mewn gyrfaedd yn y sector creadigol, bydd gennych:

- Brofiad amlwg o weithio mewn amgylchedd creadigol gyda sawl partner;
- Sgiliau ardderchog i ddarparu, gweinyddu a chyfathrebu ynghylch prosiectau. Mae'n rhaid gallu gweithio gydag MS Office – gan gynnwys gwybodaeth waith dda o Excel a gallu trefnu amserlenni ar gyfer datblygu prosiectau; yn ogystal â bod â phrofiad o ddarparu, gwerthuso ac adrodd yn ôl yn erbyn targedau diffiniedig;
- Ymwybyddiaeth amlwg o, ac ymrwymiad i, wella cynhwysedd y sector creadigol i adlewyrchu'r genedl rydyn ni'n byw ynddi;
- Y gallu i reoli dyddiadur a gwaith tîm eich hunan, gan dalu sylw i fanylion. Mae newidiadau ac hyblygrwydd yn rhan annatod o drefnu digwyddiadau a phrosiectau hyfforddi. Mae gallu amlwg i feddwl yn gyflym a rheoli heriau pan maen nhw'n codi yn hanfodol;
- Dealltwriaeth glir a manwl o'r byd addysg, sgiliau a hyfforddi yng Nghymru a phrofiad o drefnu digwyddiadau a hyfforddi;
- Trwydded yrru gyfredol a glân;
- Gwiriad Datgelu a Gwahardd cyfredol, clir (cyn penodi);
- Yn fodlon i weithio oriau anghymdeithasol o dro i dro;

## DYMNUNOL

- Rhugl yn Gymraeg (yn ysgrifenedig ac ar lafar) yn ddymunol iawn ond nid yn hanfodol;

- Dealltwriaeth amlwg o lechyd a Diogelwch mewn swyddfeydd, wrth hyfforddi a chynnwys digwyddiadau, gan gynnwys ar set (bydd hyfforddiant ar gael);
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o swyddogaeth cymdeithasau tai a thai cymdeithasol yng Nghymru o fantais ond nid yn hanfodol.

## **CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSEDD**

Mae Ffilm Cymru wedi ymrwmo i wella amrywiaeth a chynhwysedd yn y sector ffilm a chynulleidfaoedd yng Nghymru ac yn dangos yr ymrwymiad hwn trwy ein hymarferion recriwtio a staffio.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb, Cynhwysedd ac Amrywiaeth, Cynllun y Gymraeg a Chynllun Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol [i'w weld yma](#).

Byddwn yn ddiolchgar pe byddai'r holl ymgeiswyr hefyd yn cwblhau ein ffurflen monitro Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysedd.

Mae'r wybodaeth yn ein helpu i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 ac i wella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysedd ein gweithlu. Ni fyddwn yn rhannu unrhyw beth o'ch data personol gyda thrydydd partïon. Bydd yr wybodaeth rydych yn ei gyflwyno'n cael ei wneud yn anhysbys ac yn cael ei brosesu'n unol â Deddf Gwarchod Data a'r Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol. Bydd data ceisiadau'n cael ei gadw am 1 flwyddyn ac yna'n cael ei ddinistrio'n ddiogel gyda dim ond y dadansoddiad wedi'i ddioli nad yw'n cynnwys unrhyw fanylion personol yn cael ei gadw. Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut rydym yn prosesu data yn [ein Polisi Preifatrwydd yma](#).

## **DYDDIAD CAU AR GYFER CEISIADAU**

Anfonwch eich CV ynghyd ag e-bost yn amlinellu sut mae eich profiad a'ch sgiliau yn cyd-fynd â'r rhai a ddangosir uchod, pam fod gennych ddiddordeb yn y swydd a phryd y byddwch ar gael i gychwyn.

Dylid cyfeirio ceisiadau at Siôn Eirug a'u hanfon at: [sion@ffilmcymruwales.com](mailto:sion@ffilmcymruwales.com)

Y terfyn amser ar gyfer ceisiadau yw **5pm Dydd Llun 23 Mawrth 2020**.

Cynhelir cyfweiliadau ar 2 Ebrill yn swyddfeydd Ffilm Cymru yng Nghaerdydd.